

COFNODION

Cofnodion Grŵp Cyswllt Prosiect Adeiladu Wylfa Newydd a gynhaliwyd am 5.30pm ddydd Iau 27ain Medi 2012 yn Swyddfa Wylfa Horizon.

Yn bresennol :

Sefydliad	Enw	Cyfenw
Cyngor Cymuned Amlwch	Val	Roberts
Cymdeithas Amaethyddol Ynys Môn	John	Chamberlain
Ymddiriedolaeth Bodorgan	Melanie	Wymer
Cadeirydd, PLG	Dennis	Evans
Cwmni Cemaes Cyf	Eric	Torr
Rhaglen Ynys Ynni	John Idris	Jones
Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Cyngor Ynys Môn	Arwel	Williams
Y Ganolfan Byd Gwaith	Damian	Hamilton
Cyngor Cymuned Llanbadrig	Elfed	Jones
Cyngor Cymuned Llanbadrig	Allan	Kerry
Gyngor Cymuned Llanelian	Helen	Woodcock
Cyngor Cymuned Llanfachraeth	Bleddyn	Rowlands
Cyngor Cymuned Llanfaethlu	Peter	Jones
AS Conwy	Guto	Bebb AS
Magnox	Gordon	Malcolm
Menter Mechell/Carrog Renewables/Is-Gadeirydd PLG	Jac	Jones
Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr	Will	Edwards
Iechyd Cyhoeddus Cymru	Sarah	Andrews
Cyngor Cymuned Tref Alaw	Anna M	Jones
Cymdeithas Ymddeoledigion yr Wylfa	Tom	Conwy
Canolfan Cyngor ar Bopeth Ynys Môn	Karen	Garrod
Ysgol Syr Thomas Jones	Jean	Jones
Ysgol Thomas Jones	Aaron	Bailey
Ysgol Thomas Jones	Callum	Davies
Ysgol Thomas Jones	Naomi	Evans
Aelodau'r cyhoedd		
	Michael	Dodds

	Derek	Gadsdon
	Iorwerth	Gray-Parry
	Tim	Poole
	Steve	Roberts
	Cheryl	Griffiths
	Trevor	Jones
	J.C	Jones
Ymddiheuriadau		
Clwb Ffermwyr Ifanc Ynys Môn	Elen	Jones
Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig	Gwynne	Morris Jones
Ynys Ynni	Linda Wyn	Jones
Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru	Iwan	Williams
Undeb Amaethwyr Cymru	Heidi	Williams
Cyngor Tref Caergybi	Clifford	Everett
Cyngor Sir Ynys Môn	Carys	Edwards
Aelod Cynulliad Cymru lleol	Ieuan Wyn	Jones
Aelod Seneddol	Albert	Owen AS
Aelod o'r Cyhoedd	Mel	O'Hara
Cynulliad Cenedlaethol Cymru	Mark	Isherwood
Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru	Richard	Williams
Is-Gadeirydd PLG/Menter Mechell/Carrog Renewables	Jac	Jones
Cynrychiolydd Cyngor Sir Ynys Môn	Dylan	Williams
Cynrychiolydd Cyngor Sir Conwy	Stuart	Anderson
Dŵr Cymru	Angela	Meadows
Canolfan Cyngor ar Bopeth Ynys Môn	Jackie	Blackwell
Ysgol Uwchradd David Hughes	Brian	Jones

Os yw'ch enw wedi cael ei adael allan yn ddamweiniol o'r rhestr hon neu wedi'i gofnodi'n anghywir, cysylltwch â Horizon ar 0800 954 9516 neu yn wylfaenquiries@horizonnuclearpower.com.

1 Gair o Groeso gan y Cadeirydd

Croesawodd y Cadeirydd, Dennis Evans (DE), bawb i'r cyfarfod. Roedd yn teimlo fod peth amser wedi mynd heibio ers y cyfarfod diwethaf a bod yr amseru yn hynod briodol yn dilyn y sôn yn y wasg yn ddiweddar am bryniant Pŵer Niwclear Horizon.

Croesawodd DE hefyd Charlie Tasker (CT) ac Alan Smith (AS) o Horizon, yn ogystal â John Idris Jones (JIJ), Rheolwr Rhaglen Ynys Ynni, a Gordon Malcolm (GM) o Magnox.

2 Ymddiheuriadau a chofnodion

Derbyniwyd ymddiheuriadau a chytunwyd bod cofnodion cyfarfod diwethaf y PLG (22ain Mai 2012) yn gofnod cywir o ddigwyddiadau ac fe'u derbyniwyd gan yr aelodau.

3 Materion yn codi o'r cyfarfod blaenorol

- Nododd DE fod National Grid yn paratoi i gyhoeddi ei ymgynghoriad parthed materion gallu'r rhwydwaith a gwelliannau iddo yng ngogledd Cymru. O ganlyniad, ni fyddai National Grid ar gael ar gyfer y cyfarfod hwn. Anogodd DE yr aelodau i fynychu ymgynghoriad y National Grid unwaith y bydd wedi'i gyhoeddi.
Nodyn ar ôl y cyfarfod Mae ymgynghoriad National Grid wedi cael ei gyhoeddi ers hynny a gellir cael mwy o wybodaeth yn www.nationalgrid.com/northwalesconnection
- Dywedodd Tom Conway (TC) nad oedd yn hapus gydag ymrwymiad y Llywodraeth i niwclear newydd. Gofynnodd a yw'r mater wedi cael ei godi gyda Charles Hendry
 - Atebodd CT fod y mater wedi'i godi ond roedd Horizon yn teimlo bod cefnogaeth gref gan Lywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru ac yn lleol.

4 Newyddion diweddaraf am broses gwerthu Pŵer Niwclear Horizon - Charlie Tasker, Cyfarwyddwr Datblygu Prosiectau, Pŵer Niwclear Horizon

- Diolchodd CT i bawb am eu cefnogaeth.
- Eglurodd CT fod Horizon wedi parhau i weithio ar y prosiect ers i RWE ac E.ON gyhoeddi eu penderfyniad i dynnu'n ôl o bŵer niwclear y DU ar 29ain Mawrth. Prif rôl Horizon oedd datblygu elfennau'r prosiect er mwyn gwneud y busnes yn barod i'w werthu. Nododd CT fod pobl leol wedi gweld pethau'n digwydd o amgylch y safle o ganlyniad i waith arolygu parhaus.
- Pwysleisiodd CT fod y prosiect yn cael cefnogaeth gref gan y Llywodraeth. Dywedodd fod y Llywodraeth yn credu fod niwclear yn parhau yn brif elfen o'i bolisi ynni a bod Wylfa yn cael ei ystyried fel un o'r safleoedd gorau. Ym mis Mehefin, bu

David Jones, Ysgrifennydd Gwladol Cymru, ar ymweliad â Wylfa gan gadarnhau cefnogaeth y Llywodraeth i niwclear newydd.

- Dywedodd CT mai prif nod Horizon yw cefnogi gwerthiant Horizon a sicrhau, unwaith y bydd perchennog newydd yn cael ei gadarnhau, ei fod mewn sefyllfa dda i fwrw ymlaen â'r prosiect.

5 Newyddion diweddaraf am y prosiect a datblygu'r safle - Alan Smith, Pennaeth Datblygu Safle, Pŵer Niwclear Horizon

- Dywedodd AS fod astudiaethau safle wedi cael eu cynnal yn ystod yr haf, gan gynnwys gwaith seismig a monitro dŵr daear. Eglurodd AS fod angen blynyddoedd lawer o ddata wrth wneud cais am ganiatâd cynllunio. Pwysleisiodd y ffaith fod gywbodaeth bod y safle yn addas yn ddaeargol ac yn ddaearyddol.
- Eglurodd AS fod yr A5025 yn parhau i gael ei hasesu, gan ystyried aliniad, lled, mynediad a chyfyngiadau eraill. Roedd angen cwblhau hyn er mwyn datblygu cynigion am welliannau posibl i'r llwybr. Fel rhan o'r prosiect hwn, dywedodd AS y byddai llythyr yn amlinellu cyfres o astudiaethau cerdded ar hyd Ffordd Ffatri Jam (Ffordd Cemlyn) yn cael ei anfon at drigolion lleol.
- Dywedodd AS fod Horizon wedi cymryd drosodd adeiladau Addysg a Datblygiad Magnox yn ffurfiol yn eu swyddfa ar y safle. Roedd y safle wedi cael ei glustnodi fel y lle gorau ar gyfer y swyddfa, ac roedd AS yn falch o allu croesawu pawb i'r swyddfa safle newydd ar gyfer cyfarfod hwn y PLG.
- Dywedodd AS fod gwelliannau wedi cael eu gwneud i nifer o adeiladau ar dir sy'n eiddo i Horizon er mwyn sicrhau eu bod yn diwallu anghenion tenantiaid cyfredol ac i'r dyfodol.
- Dywedodd AS fod Horizon wedi clustnodi 11 adeilad gwag (yn cynnwys tai wedi'u bordio, adeiladau allanol a charafanau segur) sydd angen eu gwaredu oherwydd pryderon iechyd a diogelwch. Mae diogelwch adeiladau a phobl yn hanfodol gan Horizon.
- Dywedodd AS bod ystyriaeth wedi cael ei rhoi i sicrhau nad yw rhywogaethau gwarchoddedig yn cael eu tarfu yn ystod y gwaith hyn, a'u bod yn gallu cael eu hail-leoli lle bo'r angen. Mae ailgylchu deunyddiau a lleihau gwastraff hefyd yn cael ei ystyried fel rhan annatod o waith dymchwel.
- Dywedodd AS fod arwyddion wedi cael eu gosod ger yr adeiladau gwag er mwyn atal mynediad heb ei awdurdodi. Fel landlord cyfrifol, mae'n rhaid sicrhau nad yw pobl yn mynd i mewn i'r adeiladau. Mae manylion cyswllt ar yr arwyddion, ac mae rheolwr safle Horizon, Darren Hodges, wedi'i enwi fel pwynt cyswllt.

- Dywedodd AS fod yr ymgynghori â'r cyhoedd yn mynd rhagddo a bod Horizon wedi parhau i gynnal ei Gymorthfeydd Agored misol. Mae'r rhain yn bwysig ac mae nifer y rhai a fynychodd wedi bod yn galonogol i'r tîm. Roedd Horizon hefyd yn Sioe Môn am y bedwaredd flwyddyn yn olynol a chafodd lefel dda o gefnogaeth. Dywedodd AS hefyd bod cyflwyniad wedi'i roi mewn digwyddiad Cymdeithas Diwydiant Niwclear a chadwyn cyflenwi Gogledd Cymru Llywodraeth Cymru yn Llangefni ddechrau mis Medi, er mwyn amlinellu cyfleoedd busnes gyda Horizon yn y dyfodol.
- Tynnodd AS sylw at y materion yn ymwneud â physgota ger Penrhyn Wylfa. Dywedodd bod digwyddiad diweddar wedi arwain at rywun yn cael ei achub a bod hynny wedi ysgogi Horizon i osod arwyddion iechyd a diogelwch ger pibellau gollwng yr orsaf gyfredol.
- Dywedodd AS fod cysylltiad y National Grid yn parhau mewn lle a bydd ymgynghoriad y National Grid yn y dyfodol yn amlinellu sut y gellid atgyfnerthu'r rhwydwaith ledled gogledd Cymru. Yn bwysig, mae prosiect y National Grid wedi newid yn sylweddol ers 2008 ac yn awr, mae'n cynnwys yr angen i gysylltu mwy o ffynonellau ynni, yn cynnwys cynllun arfaethedig i greu ynni gwynt ar y môr. Anogodd AS yr aelodau i fod yn rhan o'r ymgynghoriad.
- Cafodd Tom Hurford (TH) o Horizon a Tom Conway o Gymdeithas Ymddeoledigion yr Wylfa eu llongyfarch am eu llwyddiannau diweddar. Mae TH wedi ennill gradd anrhydedd dosbarth cyntaf yn ddiweddar ym Mhrifysgol Salford yn ogystal â Thystysgrif Academaidd Rhagoriaeth gan y Sefydliad Siartredig Adeiladu. Roedd y Rhaglaw Comander Tom Conway - aelod o'r PLG a chyn-uwch beiriannydd comisiynu yn Wylfa - wedi derbyn Gwobr Anrhydeddus gan Brifysgol Abertawe, ag yntau wedi graddio'n wreiddiol mewn Ffiseg a Mathemateg Pur o'r brifysgol yn 1951.

HOLI AC ATEB

- Cyn cychwyn ar y cwestiynau ar gyfer eitemau tri a phedwar ar yr Agenda, cyfeiriodd y Cadeirydd at erthygl a oedd wedi ymddangos yn y Financial Times ar 25ain Medi, yn awgrymu mai'r dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau oedd diwedd Medi. Dywedodd cynrychiolwyr Horizon oedd yn bresennol nad oeddent yn gallu gwneud unrhyw sylw ar straeon yn y cyfryngau gan fod y broses werthu yn cael ei rheoli gan eu cyfranddalwyr.
- Dywedodd TG ei fod yn parhau'n amheus am yr ymrwymiad gan y Llywodraeth. Cyfeiriodd at y tendr diweddar ar gyfer contract Rheilffordd Arfordir y Gorllewin a oedd werth biliynau o bunnoedd ac wedi cael cefnogaeth gan fuddsoddwyr o'r sector preifat. Teimlai ei bod yn hen bryd i rai'n gweithio yn Ninas Llundain ystyried pŵer niwclear fel cyfle i fuddsoddi.

- Dywedodd DE ei fod wedi gofyn i Mr Hendry pam nad oedd y Llywodraeth yn 'chwilio' am arian o ddinas Llundain. Yr ateb oedd nad oedd y Llywodraeth yn ariannu niwclear newydd ac felly nad oedd yn briodol.
 - Ychwanegodd TC ac AS hefyd fod buddsoddwyr o'r Ddinas fel arfer yn edrych ar gyfleoedd a fyddai'n arwain at ddychweliadau tymor byr. Mae buddsoddi mewn creu pŵer niwclear yn cynnig dychweliadau dros gyfnod llawer hwy nag a fyddai'n dderbyniol i'r buddsoddwyr hynny.
- Nododd Damian Hamilton (DH) o'r Ganolfan Byd Gwaith mai ei brif ddiddordeb yw cyflogaeth a helpu pobl ennill y cymwysterau mwyaf addas. Mynegodd bryderon am amserlen y prosiect a'r hyn yr oedd hyn yn ei olygu i rai sy'n chwilio am waith a phobl ifanc ar Ynys Môn.
 - Dywedodd Claire Loveday (CL), Pŵer Niwclear Horizon, fod hwn yn fater pwysig a bod Horizon yn awyddus iawn i weld cynnydd unwaith y bydd wedi cael cadarnhad o amserlen y prosiect.
 - Dywedodd CT fod Horizon yn obeithiol o gael cadarnhau amserlen erbyn chwarter cyntaf 2013. Dywedodd CT ei fod yn disgwyl gweld oddeutu 5,000 o bobl ar y safle yn ystod y prif waith adeiladu ac yn ystod blynyddoedd cyntaf y datblygiad, byddai Horizon yn gweithio gyda cholegau lleol i hyrwyddo'r sector a'r prosiect.
 - Dywedodd CL y bydd yna oddeutu 800 o swyddi yn ystod y gwaith, a fydd yn cynnwys popeth o wyddorau niwclear i adnoddau dynol a rheoli prosiect.
 - Dywedodd Richard Foxhall (RF), o Bŵer Niwclear Horizon, fod creu swyddi yn y sector wedi bod yn ganolbwynt gwaith Horizon yn ddiweddar ac mae wedi mynychu nifer o ddigwyddiadau sgiliau yng ngogledd Cymru.
 - Gofynnodd John Chamberlain (JC) a fyddai'r cyhoeddiad fod Siapan yn tynnu'n ôl o bŵer niwclear yn arwain at ymateb negyddol gan gefnogwyr adeiladu pwerdai niwclear newydd yn y DU a gan fidwyr posibl am Horizon?
 - Dywedodd CT eu bod wedi bod yn monitro'r gefnogaeth i niwclear ac nad oeddent yn credu y byddai hyn yn effeithio ar bolisi ynni'r DU.
 - Dywedodd JC fod gwylwyr y glannau lleol yn bryderus ynghylch cynnal mynediad i safle Wylfa.
 - Nododd AS fod Horizon wedi trefnu cyfarfodydd gyda'r holl wasanaethau argyfwng a bod trefniadaeth mewn lle. Mae trafodaethau yn parhau a bydd y wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei darparu. Dywedodd nad oedd unrhyw bryder ynghylch mynediad i wylwyr y glannau ond fe fyddai'n siarad gyda JC am y mater hwn yn syth ar ôl y cyfarfod.
 - Cadarnhaodd cynrychiolydd o Dîm Gwylwyr y Glannau Cemaes nad ydynt yn cael unrhyw broblemau gyda mynediad a'u bod yn wastad wedi mwynhau perthynas dda gyda Horizon. Roeddent yn awyddus i sicrhau mynediad yn ystod y gwaith adeiladu.

- Gofynnodd Derek Gadsdon (DG) a fyddai cyfleuster harbwr yn cael ei ddatblygu er mwyn dod â deunyddiau i'r safle.
 - Atebodd AS fod Cyfleuster Dadlwytho Deunyddiau - MOLF - yn rhan bwysig o'r datblygiad. Roedd y tîm wedi asesu Porth yr Ogof, ond roedd Porth y Pistyll bellach yn cael ei ystyried yn opsiwn gwell. Bydd y cynigion eu hunain yn cael eu penderfynu unwaith y bydd prynwr wedi'i gadarnhau ac y bydd y prosiect yn gallu symud ymlaen i ymgynghoriad.
- Gofynnodd TC a allai Horizon a National Grid rannu ymgynghoriadau ac osgoi'r angen am ddau set o ddigwyddiadau.
 - Atebodd DE fod National Grid wedi gosod eu strategaethau ymgynghori a bod yna'n awr drefn gyfreithiol y mae'n rhaid iddynt ei dilyn.
 - Nododd CL y byddai cynrychiolwyr o Horizon yn mynychu digwyddiadau ymgynghori National Grid.
- Dywedodd Peter Jones (PJ) fod Horizon wedi cysylltu â nifer o dirfeddianwyr ar hyd yr A5025 ddeuddeg mis yn ôl i drafod cynlluniau posibl ar gyfer gwelliannau i'r ffordd. Roedd yn bryderus nad oedd y tirfeddianwyr dan sylw wedi cael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau ac y dylid gwneud mwy o ymdrech i roi gwybodaeth i bobl.
 - Dywedodd AS fod cylchlythyr wedi cael ei ddsbarthu i 33,000 o gyfeiriadau preswyl ar yr ynys a bod y Cymorthfeydd Agored yn parhau bob mis. Roedd sgysiau un wrth un hefyd wedi parhau.
 - Teimlai Arfon Jones (AJ) na ddylai Horizon fod yn dweud wrth bobl beth sy'n digwydd, ac y dylent ymgynghori â hwy.
 - Dywedodd CT ei fod yn croesawu'r adborth a bod Horizon yn awyddus i ymdrin â'r mater.
 - ***Nodyn ar ôl y cyfarfod*** *Ysgrifennodd Horizon at y grŵp hwn o drigolion ar 24ain Mai 2012 - yn dilyn y cyhoeddiad gan ei gyfranddalwyr - i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf a chynnig cyfarfodydd un wrth un. Yn dilyn yr adborth yn y cyfarfod PLG hwn, ysgrifennodd Horizon eto at y trigolion hyn ar 10fed Hydref 2012 gan ailadrodd ei gynnig i gyfarfod un wrth un ac ateb cwestiynau. Cwrdd AS gyda PJ ac AJ i drafod cyfathrebu yn dilyn y cyfarfod.*

6 Unrhyw fater arall

- Croesawyd John Idris Jones (JIJ), Pennaeth Rhaglen Ynys Ynni gan DE i roi'r newyddion diweddaraf.
- Diolchodd JIJ i bawb am y cyfle i siarad am Ynys Ynni.
- Dywedodd JIJ nad yw Ynys Ynni yn ymwneud â Horizon yn unig, mae'n cynnwys nifer o ddatblygiadau eraill e.e. Fferm Wynt Rhiannon, datblygiadau tyrbinau morol ar gyfer y Skerries. gorsaf bŵer biomas yng Nghaergybi, datblygiad newydd ger safle

Alwminiwm Môn a llawer o brosiectau eraill i ddarparu cyflogaeth yng Ngwynedd, Ynys Môn a Chonwy.

- Dywedodd JIJ eu bod yn parhau i chwilio am ffyrdd o sicrhau fod y gymuned yn elwa o'r datblygiadau hyn.
- Eglurodd JIJ bwysigrwydd sicrhau fod gan bobl ifanc sgiliau. Roeddent yn gweithio gyda Phrentis Menai, cwmni a gefnogir gan Gyngorau Sir Gwynedd, Ynys Môn a Chonwy a Horizon a Llywodraeth Cymru i gyflogi 70 prentis am dair blynedd.
- Dywedodd JIJ mai un mater craidd ar Ynys Môn yw mynediad i fand eang. Trwy'r Ardal Fenter, dywed Llywodraeth Cymru y bydd Ynys Môn yn derbyn y genhedlaeth nesaf o fand eang dros y tair i bedair blynedd nesaf.
- Cyflwynwyd Gordon Malcolm (GM), Cyfarwyddwr Safle Magnox yn Wylfa gan DE. Dywedodd fod Magnox wedi ymrwymo i gynhyrchu diogel a'r flaenoriaeth yw bod yn gymydog da. Cyfeiriodd at ymweliad diweddar yr Ysgrifennydd Gwladol newydd, David Jones AS â'r safle. Teimlai ei fod yn amlwg fod gan David Jones ddiddordeb yng ngwaith Horizon a'i fod yn ystyried hynny'n galonogol.
- Awgrymodd DE y gellid cynnal cyfarfod nesaf y PLG ym mis Tachwedd.

7 GORFFEN

- Daeth y cyfarfod i ben am 7.15pm.